

Person Perthnasol	Ymchwiliad	Dyddiad rhoi hysbysiad penderfynu	Canfyddiadau a dyfarniad y Comisiynydd
<u>Cyngor Bro Morgannwg</u>	CS1276 Cysylltodd yr achwynydd gyda'r Comisiynydd gan ei bod yn teimlo bod ei theulu yn cael eu trin yn annheg gan Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bro Morgannwg gan na wnaethant ystyried eu dewis iaith pan gafodd y teulu eu cyfeirio at yr Adran.	29/04/2025	Canfyddiadau'r Comisiynydd Darparodd y Cyngor wybodaeth oedd yn cadarnhau bod gohebiaeth ac atodiadau yn cael eu hanfon yn Saesneg yn gyntaf yn gyson oherwydd nad oedd eu trefniadau cyfieithu yn cyd-fynd gyda'r angen i anfon gohebiaeth a dogfennau mewn modd sy'n cadw at derfynau amser eraill y mae'n ofynnol i'r Cyngor gadw atynt.
	Darparodd yr achwynydd nifer sylweddol o enghreifftiau i ddarlunio'r profiad gafodd y teulu wrth ddod i gyswllt gyda'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd hyn yn cynnwys enghreifftiau o ohebiaeth dderbyniwyd yn Saesneg yn unig neu yn Saesneg yn gyntaf gyda'r fersiwn Cymraeg yn dilyn ac enghreifftiau o gyfarfodydd gyda aelodau o'r teulu, gan gynnwys y plant, heb ddarpariaeth cyfieithu neu gyda threfniadau cyfieithu annigonol.		Roedd y wybodaeth dderbyniwyd gan y Cyngor yn cadarnhau nad oedd eu trefniadau cyfieithu mewn cyfarfodydd yn cyd-fynd gyda gofynion safonau'r Gymraeg. Cododd y wybodaeth dderbyniwyd gan yr achwynydd amheuon am y modd mae'r Cyngor yn asesu sgiliau ieithyddol eu staff. Dangosodd y wybodaeth dderbyniwyd gan y Cyngor nad ydynt wedi asesu sgiliau iaith holl staff yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol fel sy'n ofynnol i gydymffurfio gyda safon 127. Creodd profiad y teulu amheuon ynglŷn â threfniadau'r Cyngor i ddelio gyda chwynion am gydymffurfiaeth gyda safonau'r Gymraeg. Darparodd y Cyngor ddolen at weithdrefn gwynion nad oedd yn crybwyll safonau'r Gymraeg. Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth dderbyniwyd gan yr achwynydd a'r sefydliad, rydym o'r farn bod y sefydliad wedi methu cydymffurfio gyda safonau 5, 6, 26, 26A, 29,

29A, 127 a 156 ac rydym wedi gosod camau gorfodi er mwyn iddynt adfer cydymffurfiaeth a sicrhau gwell darpariaeth i aelodau o'r cyhoedd yn y dyfodol.

Safon 5 – Methiant

Safon 6 – Methiant

Safon 26 – Methiant

Safon 26A – Methiant

Safon 2 – Methiant

Safon 29A – Methiant

Safon 127 – Methiant

Safon 156 – Methiant

Gweithredu Pellach

Safon 5 - Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

1. Rhaid i Gyngor Bro Morgannwg sefydlu neu addasu gweithdrefn er mwyn canfod ym mha iaith neu ieithoedd mae defnyddwyr gwasanaeth yn dymuno derbyn gohebiaeth. Rhaid i'r weithdrefn egluro, os nad ydynt yn gallu sefydlu dewis iaith defnyddwyr gwasanaeth, bod rhaid gohebu yn Gymraeg hyd nes eu bod yn gwybod nad yw'r defnyddiwr gwasanaeth am dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg.
2. Rhaid i'r Cyngor ddarparu hyfforddiant i staff perthnasol i godi ymwybyddiaeth o'r weithdrefn.
3. Rhaid i'r Cyngor adolygu ei drefniadau cyfieithu er mwyn ei alluogi i gyd-fynd gyda dyletswyddau eraill.
4. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod atodiadau Cymraeg yn cael eu hanfon yr un pryd ag atodiadau Saesneg wrth anfon gohebiaeth ac nad yw gohebiaeth Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na gohebiaeth Saesneg.

5. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-4.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

6. Rhaid i'r Cyngor adolygu ei weithdrefnau er mwyn sicrhau fod unigolion sy'n derbyn gwahoddiad i gyfarfod sy'n ymwneud â'u llesiant, yn derbyn cais clir a diamwys am ei ddymuniad i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod a bod y dymuniad yma yn cael ei gofnodi.

7. Rhaid i'r Cyngor ddarparu canllawiau i staff sy'n trefnu cyfarfodydd sy'n ymwneud â llesiant er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda safonau'r Gymraeg.

Rhaid i'r canllawiau roi sylw i'r canlynol:

- Pryd a sut y gofynnir i'r mynychwyr a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod.
- Sut y byddant yn hysbysu'r mynychwyr y byddant yn darparu yn unol â'r dymuniad hwnnw.
- Sut y bydd y Cyngor yn trefnu'r cyfarfod heb gymorth gwasanaeth cyfieithu

Neu

- Sut y dylai staff y Cyngor drefnu gwasanaeth cyfieithu os nad oes modd cynnal y cyfarfod heb gymorth cyfieithu.
- Pa bryd y mae angen trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg a pha bryd y mae angen trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg.
- Cyngor i Gadeiryddion ar sut i gynnal cyfarfodydd lle defnyddir gwasanaeth cyfieithu.

8. Dylai'r Cyngor godi gynnal hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth ei staff, gyda phwyslais arbennig ar staff sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol a lles, o ofynion safonau 26, 26A, 29 a 29A ac i godi ymwybyddiaeth o'r canllawiau newydd.

Safon 127 - Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

9. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ganddynt weithdrefn er mwyn asesu sgiliau Cymraeg ei holl gyflogeion ac mae'n rhaid i'r weithdrefn sicrhau bod y gofrestr yn cael ei chadw yn gyfredol.

Safon 156 - Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

10. Rhaid i Gyngor Bro Morgannwg ystyried y wybodaeth ym mharagraffau 8.1.4 i 8.1.11 o God Ymarfer Rheoliadau Rhif 1 Comisiynydd y Gymraeg er mwyn llunio gweithdrefn gwyno mewn perthynas gyda delio â chwynion am safonau'r Gymraeg.

11. Rhaid i Gyngor Bro Morgannwg ddarparu hyfforddiant i'r staff perthnasol er mwyn sicrhau gweithrediad y Weithdrefn Gwynion pan dderbynnir cwyn am safonau'r Gymraeg a sefydlu trefn reolaidd o atgoffa staff o'r trefniadau ar gyfer delio gyda chwynion am y Gymraeg.

12. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 6-11.

Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

			Safon 132: Argymhelliad o dan Adran 76(3) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 Dylai'r Cyngor ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i staff yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth staff o'r holl faterion sy'n gysylltiedig â'r achos. Cyngor o dan Adran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 Rydym yn cynghori'r Cyngor i roi sylw i Fframwaith 'Mwy na Geiriau' a Chanllawiau'r Llywodraeth ar ddelio gyda chwynion am wasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas gyda delio â chwynion yn y Gymraeg. Cyngor o dan Adran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 Rydym yn cynghori'r Cyngor godi ymwybyddiaeth ei staff, gyda phwyslais arbennig ar staff sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol a lles, o ofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â'r Gymraeg.
<u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam</u>	CS1232 Mae amheuaeth nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn asesu'r anghenion ieithyddol ar gyfer swyddi gwag neu newydd sy'n ymwneud â gwasanaethau hamdden sy'n cael eu darparu gan Freedom Leisure ar ei ran, yn unol â safon 136. Cododd hyn amheuaeth hefyd mewn perthynas â safon 136A a safon 137.	31/01/2025	Canfyddiadau'r Comisiynydd Mae'r Cyngor wedi methu cydymffurfio gyda safonau 136, 136A ac 137 wrth i Freedom Leisure hysbysebu swyddi hamdden ar ei ran. Mae amheuaeth hefyd nad yw'r tudalennau gwefan sy'n ymwneud â hysbysebu'r swyddi hynny yn cydymffurfio'n llawn gyda safon 52. Mae'r Cyngor wedi methu cydymffurfio gyda safon 52 gan fod testun Saesneg yn unig ar ochor Gymraeg y wefan. Safon 52 – Methiant

Safon 136 – Methiant
Safon 136A - Methiant
Safon 137 – Methiant

Gweithredu Pellach

Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 y Mesur
Safon 52:

1. Rhaid i'r Cyngor wirio'r tudalennau sy'n hysbysebu swyddi ar wefan Freedom Leisure er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn gyda safon 52. Rhaid i'r Cyngor sicrhau nad oes unrhyw destun neu eiriau Saesneg yn unig i'w gweld ar y tudalennau Cymraeg.
2. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod y ffurflenni cais ar-lein sy'n cael eu darparu gan y trydydd parti cyfrifol ar gael yn Gymraeg er mwyn cydymffurfio gyda safon 52.
3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 136 a 136A a 137:

4. Rhaid i'r Cyngor addasu ei drefniadau gyda Freedom Leisure i gwmpasu gofynion perthnasol y safonau recriwtio pan mae Freedom Leisure yn hysbysebu swyddi sy'n berthnasol i wasanaethau hamdden gaiff eu darparu ar ran y Cyngor.
5. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 4.

Amserlen: O fewn 12 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Prif Gwnstabl
Heddlu Dyfed
Powys

CS1267 Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd ynghylch methiant gan swyddfa'r heddlu Aberystwyth i gynnig gwasanaeth yn Gymraeg. Fe alwodd yr achwynydd heibio gorsaf yr heddlu ar ddydd Sul 9 Mehefin 2024 pan oedd y dderbynfa ar gau. Gan fod swyddog o'r heddlu yn digwydd gadael yr orsaf, fe wnaeth gynnig cynorthwyo'r achwynydd. Wedi iddo fethu cael gwasanaeth Cymraeg pan ymwelodd â'r heddlu ar 9 Mehefin 2024, fe adawodd a dywedodd iddo ffonio'r rhif 101 i adrodd am ddamwain car. Ar 17 Mehefin 2024, derbyniodd alwad yn ôl gan yr heddlu yn Saesneg i drafod y digwyddiad, a galwadau pellach yn Saesneg ar 14 Medi 2024.

10/01/2025

Canfyddiadau'r Comisiynydd

Y gofynion perthnasol dan sylw'r ymchwiliad yw safonau 21, 61 a 64. Ar ôl ystyried y wybodaeth dderbyniwyd gan yr achwynydd a'r sefydliad rydym o'r farn bod Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys wedi methu cydymffurfio â safon 21 drwy ddychwelyd galwad ffôn yr achwynydd yn Saesneg er bod cofnod wedi ei gadw ar system yr heddlu mai Cymraeg oedd y dewis iaith. Nid oeddem o'r farn bod methiant i gydymffurfio gyda safonau 61 a 64 ar y sail nad oedd gwasanaeth derbynfa ar gael gan fod y dderbynfa ar gau.

Safon 21 - Methiant

Safon 61 - Dim methiant

Safon 64 - Dim methiant

Gweithredu Pellach

Safon 21 - Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

1. Yn dilyn diwygio'r modd y cofnodir dewis iaith ar system STORM yr heddlu, rhaid i Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys:

i) hysbysu staff sy'n gyfrifol am ateb galwadau ffôn o'r newid hwn

ii) cynnal sesiwn ymwybyddiaeth i staff sy'n gyfrifol am ateb galwadau ffôn o bwysigrwydd gwirio dewis iaith pob person sy'n cysylltu.

2. Rhaid i Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.

Amserlen: O fewn 6 fis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad

		terfynol.
<u>Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan</u>	20/12/2024	CS1282 O ganlyniad i'n gwaith monitro, roedd amheuaeth nad oedd cyfrifon corfforaethol Facebook ac X Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn cydymffurfio gyda safon 45. Roedd y diffygion yn cynnwys negeseuon ar y cyfrif Saesneg heb fersiynau cyfatebol Cymraeg, llai o wybodaeth mewn negeseuon Cymraeg, a llai o wybodaeth o fewn y testun cyffredinol ar y cyfrifon. Canfyddiadau'r Comisiynydd Yn dilyn ystyried y dystiolaeth gasglwyd gan yr arolygon a'r wybodaeth dderbyniwyd gan y bwrdd iechyd, rydym o'r farn bod y bwrdd iechyd wedi methu cydymffurfio gyda safon 45. Rydym yn cydnabod bod y bwrdd iechyd wedi paratoi cynllun gweithredu i fynd i'r afael gyda'r materion o fewn yr ymchwiliad yma. Gyda hynny mewn golwg, nid ydym wedi gosod unrhyw gamau gorfodi ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Yn hytrach, darperir cyngor iddynt o dan adran 77(4) y Mesur. Safon 45 – Methiant Gweithredu Pellach Cyngor yn unol ag adran 77(4) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 Rydym yn cyngori'r bwrdd iechyd i ystyried a oes angen adolygu eu trefniadau cyhoeddi negeseuon ar eu cyfrifon cymdeithasol er mwyn sicrhau bod eu holl negeseuon yn cydymffurfio gyda safon 45. Gallai'r trefniadau hynny gynnwys: • paratoi canllaw, neu ddiwygio ganllaw sydd eisoes ar waith, sy'n gosod proses i'w dilyn ar gyfer cyhoeddi negeseuon Cymraeg ar gyfrifon cymdeithasol. Gallai'r canllaw hwnnw gynnwys trefniadau ar gyfieithu a prawf ddarllen, paratoi'r testun Cymraeg a Saesneg ar yr un pryd cyn eu cyhoeddi a defnyddio hashnodau.

20/12/2024

CS1270 Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn ynglŷn â theitl ac enw anfonwr ar e-bost cylchlythyr gan Drafnidiaeth Cymru. Roedd yr achwynydd yn anfonwr nad oedd modd gweld y teitl yn Gymraeg heb agor yr e-bost ac roedd yn anfonwr bod enw'r anfonwr yn Saesneg yn unig.

Canfyddiadau'r Comisiynydd

Darparodd Gweinidogion Cymru wybodaeth oedd yn dangos eu bod yn ymdrechu i gwtogi'r teitl er mwyn sicrhau bod modd gweld y teitl Cymraeg a Saesneg yr un pryd. Fe wnaethant hefyd nodi eu bod wedi newid yr enw anfonwr i ddangos "Transport for Wales Trafnidiaeth Cymru" yn hytrach na "Transport for Wales".

Ar ôl ystyried y wybodaeth dderbyniwyd gan yr achwynydd a'r sefydliad rydym o'r farn bod y sefydliad wedi methu cydymffurfio gyda safonau 6 a 83. Gan bod y sefydliad wedi cymryd camau i gywiro'r methiant, ni fyddwn yn gosod camau pellach ar gyfer y methiant i gydymffurfio gyda safon 83.

Safon 6 – Methiant

Safon 83 – Methiant

Gweithredu Pellach

Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

1. Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau nad yw teitlau cylchlythyr y mae Trafnidiaeth Cymru yn eu hanfon drwy e-bost yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
2. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1.

Amserlen: O fewn mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

CS1193 a CS1251 Derbyniais gwynion gan aelod o'r cyhoedd am fethiant honedig Cyngor Powys i gyhoeddi dogfennau, papurau a phenderfyniadau Cabinet y Cyngor yn Gymraeg ar brif wefan y Cyngor.

Cyngor Sir
Powys

10/12/2024

Canfyddiadau'r Comisiynydd

Yn dilyn gohebu gyda'r Cyngor, yn wreiddiol, fe wnaeth y Cyngor ystyried ymrwymo i newid ei weithdrefn fewnol wrth baratoi'r dogfennau yma. Penderfynais ar y pryd i beidio ymchwilio i'r mater gan hynny byddai'r hyn y gwnaeth y Cyngor ei gynnig yn adfer cydymffurfiaeth gyda'r safonau.

Fodd bynnag, yn dilyn methiant y Cyngor i fabwysiadu'r drefn newydd o weithio a amlinellwyd, yn ogystal a derbyn cwyn pellach am faterion tebyg am fethiant y Cyngor i ddarparu dogfennau a phenderfyniadau cabinet y Cyngor, penderfynais agor ymchwiliad i'r ddau fater a'u hystyried gyda'u gilydd mewn un adroddiad.

Wrth ymateb i gŵyn yr achwynydd, roedd y Cyngor yn derbyn na wnaeth gydymffurfio â gofynion y safonau dan sylw. Ni eglurodd y Cyngor ei resymau dros fethu cydymffurfio ond nodwyd bod gweithdrefn newydd bellach wedi ei sefydlu ble defnyddir cyfieithu peirianyddol a deallusrwydd artiffisial i gyfieithu dogfennau a phenderfyniadau'r Cabinet sydd wedyn yn cael eu gwirio gan gyfieithydd cymwys cyn uwch lwytho'r dogfennau i wefan y Cyngor.

O ganlyniad, er canfod methiant, yn wreiddiol penderfynais beidio gweithredu ymhellach na gosod camau gorfodi ar y Cyngor, gan roi ffydd yn y Cyngor ei fod wedi sefydlu o'i wirfodd trefn ddigonol i adfer cydymffurfiaeth â'r safonau.

Yn dilyn gyrru fy adroddiad drafft fodd bynnag, daeth yn amlwg nad oedd y Cyngor yn dal i gyhoeddi'r dogfennau dan sylw ar eu gwefan ar yr un pryd â'r fersiynau Saesneg.

			Wedi gohebu ymhellach gyda'r Cyngor, er eu bod yn ymwybodol o'r ymchwiliad yma ers cryn amser, daeth yn amlwg nad ydynt wedi rhoi mewn lle trefniadaeth ddigonol i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Safonau dan sylw. O ganlyniad, mae'n rhaid i mi osod camau gorfodi ar y Cyngor. Safon 40 – Methiant Safon 47 – Methiant Safon 52 – Methiant Gweithredu Pellach 1. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ganddynt, o ddyddiad yr Hysbysiad Penderfynu yma ymlaen, weithdrefn ble bod agendau, cofnodion, dogfennau a phenderfyniadau y Cyngor yn cael eu llunio yn y Gymraeg. 2. Rhaid i'r Cyngor sicrhau fod y deunydd Cymraeg dan sylw yng Ngham Gorfodi 1 ddim yn cael ei drin yn llai ffafriol na'r deunydd Saesneg gan gynnwys o ran pryd a sut y caiff y deunydd ei gyhoeddi ar eu gwefan. 3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 – 2 o fewn 1 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.
<u>Bwrdd Iechyd</u> <u>Prifysgol Hywel</u> <u>Dda</u>	CS1279 Fis Gorffennaf 2024, gwiriodd fy swyddogion brif llinellau ffôn ysbytai y bwrdd iechyd. Yn groes i ofynion safon 9, ni roddwyd gwybod i'r galwr bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ar eu rhifau ffôn.	06/12/2024	Canfyddiadau'r Comisiynydd Cadarnhaodd tystiolaeth y bwrdd iechyd, nad oes ganddynt drefniadau digonol ar hyn o bryd i sicrhau ei fod yn rhoi gwybod bod gwasanaeth Cymraeg ar gael. Dangosodd canlyniadau'r arolwg na lwyddodd y bwrdd iechyd i ddelio gyda'r galwadau yn Gymraeg yn unol â gofynion safon 10.

Cadarnhaodd y bwrdd iechyd mai dim ond nifer cyfyngedig o'u trinwyr galwadau sy'n siarad Cymraeg ac nad oes system ffôn gyfeirio galwyr i wasanaeth ffôn Cymraeg ar hyn o bryd er bod cynlluniau i wneud hynny yn y dyfodol.

Safon 9 – Methiant

Safon 10 – Methiant

Gweithredu Pellach

Safonau 9 a 10: Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

Rwyf yn ei gwneud yn ofynnol i Fwrdd Iechyd Hywel Dda baratoi cynllun gweithredu er mwyn atal methiant y bwrdd iechyd i gydymffurfio â safonau 9 a 10 rhag parhau neu gael ei ailadrodd.

Disgwylir i'r cynllun gael ei baratoi a'i gwblhau yn unol â'r canllawiau cyffredinol a gynhwysir yn "Dogfen Gyngor: Canllaw ar gyfer paratoi cynllun gweithredu yn sgil dyfarniad o fethiant i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg."

Rhaid i'r cynllun gweithredu gynnwys disgrifiad o bob un o'r camau y bydd y bwrdd iechyd yn eu cymryd i sicrhau, pan fydd person yn cysylltu â'r bwrdd iechyd ar ei rifau ffôn perthnasol:

- bod y bwrdd iechyd yn rhoi gwybod i'r person bod gwasanaeth Cymraeg ar gael, yn unol â gofynion safon 9;
- bod y bwrdd iechyd, yn unol â gofynion safon 10, yn delio â'r alwad yn Gymraeg os yw'r person yn dymuno hynny—

- a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a
- b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.

Rhaid i'r cynllun gweithredu gynnwys

- amserlen ar gyfer cyflawni pob un o'r camau, gyda phob un o'r camau i'w cyflawni erbyn diwedd Gorffennaf 2025.
- pwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol am weithredu pob un o'r camau a nodir yn y cynllun;
- pwy o'r Uwch Dîm Rheoli sydd yn gyfrifol am graffu ar gynnydd y bwrdd iechyd o'r cynllun gweithredu;
- disgrifiad o'r drefn oruchwyllo a fabwysiedir i sicrhau cyflawniad y cynllun;
- yr adnoddau (e.e. cyllid/staff) sydd eu hangen i gyflawni pob un o'r camau.

Safon 9

Disgwylir i'r cynllun gweithredu gynnwys camau i sicrhau -

- bod holl rifau ffôn perthnasol y bwrdd iechyd yn rhoi gwybod i bersonau sy'n galw bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ar y ffôn, ymhob adeg o'r alwad y disgwylir ei wneud yn unol â safon 9.

Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y bwrdd iechyd yn rhoi gwybod bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ar y ffôn:

- ar ddechrau unrhyw alwad (e.e. gan roi gwybod drwy system ffôn awtomataidd ac/neu drwy'r aelod staff a

- atebir yr alwad yn rhoi gwybod ac/neu drwy'r aelod staff yn dechrau'r sgwrs yn Gymraeg yn syth), a
- phan fo aelod staff yn trosglwyddo'r alwad i aelod staff arall (sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol yr alwad yn Gymraeg).
 - os nad yw'r bwrdd iechyd yn cydymffurfio â safon 9 mewn unrhyw fodd arall, bod y bwrdd iechyd yn sefydlu system ffôn awtomataidd ar y rhif ffôn sy'n rhoi gwybod i bob galwr ar ddechrau'r alwad bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ar y ffôn, drwy roi dewis iddynt dderbyn gwasanaeth Cymraeg (neu Saesneg) gan bwyso rhif penodol ar y ffôn.
 - bod pob canllaw a roddir i staff er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu yn unol â gofynion safon 9 yn egluro'r camau y mae'n rhaid i staff eu cymryd mewn galwad ffôn er mwyn diwallu dyletswyddau safon 9 yn llawn.

Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod pob canllaw yn cyfleu'r canlynol:

- sut a phryd y mae'n rhaid i staff, sy'n ateb galwadau ar rifau ffôn lle atebir yr alwad yn syth gan aelod staff (ac nid gan system ffôn awtomataidd), roi gwybod i bersonau bod yna wasanaeth Cymraeg ar gael ar y ffôn (os nad yw hynny eisoes yn glir i'r person oherwydd bod yr aelod staff wedi dechrau'r sgwrs gyda'r person yn Gymraeg yn syth),
- sut a phryd y mae'n rhaid i staff roi gwybod y bydd gwasanaeth Cymraeg yn parhau ar gael ar y ffôn wrth i'r aelod staff drosglwyddo'r alwad i aelod staff arall (sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol yr alwad yn Gymraeg).

Safon 10

Disgwylir i'r cynllun gweithredu gynnwys camau i sicrhau

- os yw person yn cysylltu ag un o rifau ffôn perthnasol y bwrdd iechyd, bod y sefydliad yn delio â'r alwad yn Gymraeg os yw'r person yn dymuno hynny—
 - a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a
 - b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.

Mae hyn yn cynnwys sicrhau'r canlynol os yw'r person yn dymuno i ddelio â'r alwad dan sylw yn Gymraeg:

- (yn dilyn gwneud y cyfarchiad cyntaf i'r person yn Gymraeg yn unol â safon 8), bod unrhyw gyfarchiadau eraill y mae'r bwrdd iechyd yn eu gwneud i'r person hwnnw yn ystod yr alwad yn cael eu gwneud yn Gymraeg;
- bod yr aelod staff sy'n ateb yr alwad yn gallu sefydlu natur yr alwad, cynnal sgwrs gychwynnol a delio ag unrhyw ymholiad nad yw'n ymwneud â "phwnc penodol" (e.e. ymholiad cyffredinol), yn Gymraeg;
- sicrhau nad yw'r alwad yn cael ei throsglwyddo gan yr aelod staff sy'n ateb y ffôn i aelod staff arall er mwyn delio â hi yn Gymraeg, cyn bod yr alwad yn gofyn i ddelio â "phwnc penodol" (e.e. mater arbenigol);
- unwaith y mae'r alwad yn gofyn i ddelio â "phwnc penodol", ac nad yw'r aelod staff sy'n ateb yr alwad yn gallu delio â'r pwnc penodol yn Gymraeg ei hun, bod y bwrdd iechyd yn gwirio a oes aelod o staff ar gael sy'n gallu delio â phwnc penodol yr alwad yn Gymraeg, ac

os oes un ar gael, bod yr atebydd yn trosglwyddo'r alwad i'r aelod staff hwnnw i ddelio â'r pwnc penodol yn Gymraeg.

- bod y bwrdd iechyd yn sicrhau bod pob aelod staff perthnasol sy'n gyfrifol am ddelio â galwadau Cymraeg i'w rifau ffôn perthnasol yn meddu ar sgiliau iaith Gymraeg sy'n galluogi iddynt ddelio â galwadau ffôn yn Gymraeg yn unol â safon 10 (e.e. drwy wella sgiliau iaith Gymraeg y staff presennol i lefel sy'n sicrhau hynny).
- bod y bwrdd iechyd yn diwygio ei holl weithdrefnau, polisïau a chanllawiau (a dogfennau perthnasol eraill) sy'n berthnasol i gydymffurfio â safon 10 i sicrhau bod holl ofynion safon 10 yn cael eu hadlewyrchu yn glir ac yn gywir.

Mae hyn yn cynnwys diwygio pob canllaw a roddir i staff er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu yn unol â gofynion safon 10.

Amserlen:

Rhaid i'r bwrdd iechyd lunio drafft cyntaf o'r cynllun gweithredu a rhoi'r drafft hwnnw i'r Comisiynydd o fewn 2 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Erbyn 4 wythnos o ddyddiad cyflawni y cam gweithredu olaf a gynhwysir yn y cynllun gweithredu, rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cyflawni pob un o'r camau gweithredu yn y cynllun gweithredu.

Cyngor
Caerdydd

CS1222 Mae'r ymchwiliad wedi ystyried methiant honedig Cyngor Caerdydd (Cyngor) i ddarparu gwefan ac ap gwasanaethau hamdden yn y Gymraeg. Mae'r ymchwiliad hefyd wedi ystyried methiant y Cyngor i gynnig gwersi nofio i oedolion yn y Gymraeg.

05/12/2024

Canfyddiadau'r Comisiynydd

Greenwich Leisure Limited sydd yn darparu gwefan ac ap gwasanaethau Hamdden y Cyngor ar eu rhan. Mae'r Cyngor wedi derbyn eu bod wedi methu darparu gwefan ac ap gwasanaethau hamdden oedd yn gweithredu'n llawn yn y Gymraeg. Roedd cymal cyffredinol yn eu cytundeb gyda'r cwmni am yr angen i'r gwasanaethau yma gydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi derbyn nad oedd manylder digonol am y gofyniad hwnnw yn y cytundeb ac na wnaeth y Cyngor gymryd camau pwrpasol i wirio a sicrhau cydymffurfiaeth y gwasanaethau hynny gyda Safonau'r Gymraeg. Mae'r Cyngor hefyd wedi derbyn eu bod heb gynnig gwersi nofio i oedolion yn y Gymraeg er eu bod yn cynnig gwersi nofio i oedolion yn y Saesneg. Mae'r Cyngor yn derbyn nad oeddent wedi cynnig cwrs yn y Gymraeg er na wnaethpwyd asesiad o'r angen am gwrs o'r fath.

Safon 52 – Methiant
Safon 56 – Methiant
Safon 57 – Methiant
Safon 84 – Methiant
Safon 86 – Methiant

Gweithredu Pellach

Safon 52, 56 a 57: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

1. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod y wefan www.better.org.uk ac ap 'Better UK' ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn y Gymraeg a rhaid iddo weithio gyda Greenwich Leisure Limited i sicrhau cydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg.

2. Rhaid i'r Cyngor greu gweithdrefn ble bod y wefan a'r ap yn cael ei gwirio gan y Cyngor i sicrhau cydymffurfiaeth lawn gyda Safonau'r Gymraeg. Dylai'r weithdrefn sicrhau bod unrhyw wallau yn cael eu codi gyda Greenwich Leisure Limited yn cael eu cywiro o fewn cyfnod penodol. Dylai'r weithdrefn amlinellu bod y wefan a'r ap yn cael eu hadolygu yn wythnosol gan y Cyngor hyd nes bod y wefan yn gweithredu'n llawn yn y Gymraeg. Gall y cyfnod gwirio gael ei ymestyn ar ôl y pwynt hynny.

Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

3. Rhaid i'r Cyngor roi diweddariad ar eu cynnydd ar waith Cam Gorfodi 1 ar ôl 3 mis.

Safon 84 a 86: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

4. Rhaid i'r Cyngor ddiweddarau eu gweithdrefnau fel eu bod yn asesu'r angen am gwrs drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â Safon 86 pob tro mae'r Cyngor yn datblygu cwrs addysg sydd i'w gynnig i'r cyhoedd. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod staff perthnasol yn cael hyfforddiant ar y weithdrefn newydd yma ac ar sut i wneud asesiad o'r fath.

5. Rhaid i'r Cyngor gynnal asesiad o'r angen am gwrs nofio i oedolion yn y Gymraeg a sicrhau bod yr asesiad wedi ei gyhoeddi ar wefan y sefydliad yn unol â Safon 84.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

		6. Os ydi'r asesiad o dan gam gorfodi 5 yn canfod bod angen cynnal y cwrs dan sylw yn y Gymraeg, rhaid i'r Cyngor ganfod hyfforddwr nofio cymwys cyfrwng Cymraeg. Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol. 7. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 3 – 5 o fewn tri mis a chamau gorfodi 1 – 2 a 6 o fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol. Argymhelliad yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 8. Rydym yn argymhell y dylai'r Cyngor geisio canfod hyfforddwr nofio addas yn eu ffordd arferol ond hefyd i wneud ymgais bellach drwy, er enghraifft, gysylltu yn uniongyrchol gyda Phrifysgolion, Colegau neu grwpiau chwaraeon am y rôl. Os ydi'r Cyngor yn pennu rôl newydd dylai'r Cyngor ystyried cynnig hyfforddiant iaith Gymraeg fel rhan o'r swydd. Dylai'r Cyngor hefyd asesu a fyddai'n bosib i'r tiwtoriaid nofio presennol fynychu cwrs hyfforddiant Cymraeg er mwyn datblygu eu gallu i gynnig cyrsiau nofio yn y Gymraeg.
<u>Gweinidogion Cymru</u>	CS1257 Derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd fod gweminarau ynghylch Cronfa Diogelu'r Dyfodol wedi eu cynnal yn Saesneg yn unig ar wefan Busnes Cymru ar y 9fed a'r 14eg o Fai 2024.	26/11/2024 Canfyddiadau'r Comisiynydd Mae Busnes Cymru yn gweithredu safonau Gweinidogion Cymru. Cadarnhaodd Busnes Cymru i'r gweminarau gael eu cynnal yn Saesneg yn unig, er bod adnoddau Cymraeg ar gael ar eu cyfer. Cadarnhaodd Busnes Cymru hefyd fod gweminarau eraill yn cael eu cynnal ganddynt yn Saesneg yn unig, a hynny heb eu cynnig yn Gymraeg.

			Mae Safon 84 yn ei gwneud hi'n ofynnol ar Weinidogion Cymru sicrhau pan fyddont yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, eu bod yn cynnig y cwrs yn Gymraeg. Gan i'r cyrsiau addysg a drefnwyd gan Fusnes Cymru gael eu cynnal yn Saesneg yn unig, heb eu cynnig yn Gymraeg, dyfernir i Weinidogion Cymru fethu â chydymffurfio â Safon 84. Safon 84 – Methiant Gweithredu Pellach Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau fod y cyrsiau addysg a drefnir ar gyfer y cyhoedd gan Fusnes Cymru yn cael eu cynnig yn Gymraeg. Rhaid gwneud yn glir i ddefnyddwyr y gwasanaeth fod y cyrsiau addysg hyn ar gael yn Gymraeg. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau y cam gorfodi. Amserlen: O fewn 6 wythnos o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.
<u>Gweinidogion Cymru</u>	CS1265 a CS1273 Derbyniais gwynion gan ddau achwynydd ynghylch cyhoeddiadau Saesneg yn unig yng ngorsaf drenau Bangor ar amryw o adegau rhwng Ionawr a Mai 2024. Roedd cyhoeddiadau awtomatig yr orsaf yn ddwyieithog, ond roedd cyhoeddiadau llais gan staff yn Saesneg yn unig.	21/11/2024	Canfyddiadau'r Comisiynydd Dywedodd Trafnidiaeth Cymru fod rhai cyhoeddiadau yng ngorsaf drenau Bangor, ac mewn gorsafoedd trên eraill, yn cael eu gwneud gan staff. Nid yw'r holl staff sydd yn gwneud cyhoeddiadau byw yn hyderus wrth wneud cyhoeddiadau yn Gymraeg ac fe wneir rhai cyhoeddiadau felly yn Saesneg yn unig.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn gweithredu safonau Gweinidogion Cymru.

Mae safon 87 yn ei gwneud hi'n ofynnol ar Weinidogion Cymru sicrhau pan fo neges yn cael ei chyhoeddi dros system annerch gyhoeddus, fod y cyhoeddiad hwnnw yn Gymraeg, ac os yw'r cyhoeddiad yn cael ei wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf. Mae rhai cyhoeddiadau a wneir gan staff mewn gorsafoedd trên yn cael eu gwneud yn Saesneg yn unig. Dyfernir felly i Weinidogion Cymru fethu â chydymffurfio â safon 87.

Safon 87- Methiant

Gweithredu Pellach

Rhaid i Weinidogion Cymru baratoi cynllun gweithredu yn disgrifio'r camau y byddant yn eu cymryd er mwyn sicrhau fod cyhoeddiadau byw gan staff yr holl orsafoedd sydd dan eu rheolaeth yn cydymffurfio â gofynion safon 87. Rhaid i'r cynllun rhoi sylw penodol i'r camau a gymerir er mwyn sicrhau fod cyhoeddiadau gorsaf Bangor yn cydymffurfio â'r safon.

2. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau'r cam gorfodi.

Amserlen: O fewn 1 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Canfyddiadau'r Comisiynydd

Y gofynion perthnasol dan sylw'r ymchwiliad yma yw safonau 2 a 5.

Rhondda Cynon
Taf

gwasanaeth sy'n cael ei gynnig yn rhannol gan y cyngorau sir ar ran yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'r achwynydd yn honni iddi dderbyn gohebiaeth gan yr Adran Treth Cyngor, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn uniaith Saesneg yn dilyn defnyddio'r gwasanaeth hwnnw, er iddi nodi ei dymuniad i wneud popeth drwy'r Gymraeg.

Safon 2 - Methiant
Safon 5 – Methiant

Gweithredu Pellach

Safon 2 - Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf sicrhau bod templedi sydd yn cael eu cynhyrchu yn awtomatig, yn cael eu cynhyrchu'n Gymraeg (e.e. llythyrau yn ymwneud â Threth Cyngor). Os nad yw'r system bresennol yn galluogi hynny, rhaid dod o hyd i ffordd amgen o'u cynhyrchu'n Gymraeg er mwyn cydymffurfio â gofynion safonau'r Gymraeg ac anfon gohebiaeth yn unol â dewis iaith y derbynnydd lle bo hynny'n hysbys.
2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 2 - Argymhelliad yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

1. Rwy'n argymhell bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn ystyried a yw'r datganiad sy'n ymddangos ar waelod pob gohebiaeth yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n hygyrch i'r darllenwr, hynny yw, a yw'n ddigonol i eraill gysylltu gyda'r unigolyn yn y dyfodol yn ei ddewis iaith.
2. Rwy'n argymhell bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn ystyried a yw trefniadau'r Cyngor ar gadw

			cofnod dewis iaith yn ddigonol i alluogi eraill yn y sefydliad i'w ganfod pe bai angen cysylltu efo'r achwynydd yn y dyfodol. Safon 5 - Argymhelliad yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 3. Rwy'n argymhell bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn ystyried yr angen i godi ymwybyddiaeth ei staff o ofynion y safonau mewn adrannau eraill o'r Cyngor, fel sydd eisoes wedi ei wneud gydag adrannau'r Cyngor sy'n ymwneud â'r gwasanaeth 'Dywedwch Wrthym Unwaith'.
<u>Gweinidogion Cymru</u>	CS1247 Derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd ynghylch negeseuon dderbyniodd gan wefan https://www.journeycheck.com/tfwrail/ sef rhan Trafnidiaeth Cymru o wefan Journeycheck. Mae Trafnidiaeth Cymru yn gweithredu safonau Gweinidogion Cymru. Roedd rhannau o'r wefan ar gael yn Saesneg yn unig.	19/09/2024	Canfyddiadau'r Comisiynydd Mae safon 52 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod testun pob tudalen ar ei wefan ar gael yn Gymraeg ac yn gweithredu'n llawn. Rhaid sicrhau hefyd nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y tudalennau hynny. Gan mai dim ond rhannau o'r wefan https://www.journeycheck.com/tfwrail/ sydd ar gael yn Gymraeg mae Gweinidogion Cymru wedi methu cydymffurfio gyda safon 52 yn yr achos yma. Mae safon 55 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau, os oes tudalen Gymraeg ar ei wefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, bod rhaid nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen ar gael yn Gymraeg a rhoi dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol. Gan nad oedd gwefan Gymraeg gyfatebol i'r wefan https://www.journeycheck.com/tfwrail/ nid wyf o'r farn bod Gweinidogion Cymru wedi methu cydymffurfio gyda safon 55 yn yr achos yma.

Mae safon 56 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod y rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eu gwefan yn Gymraeg. Gan nad yw'r dewislenni a'r rhyngwyneb yn Gymraeg ar y wefan <https://www.journeycheck.com/tfwrail/> rwyf o'r farn bod Gweinidogion Cymru wedi methu cydymffurfio gyda safon 56.

Safon 52 – Methiant

Safon 55 – Dim methiant

Safon 56 – Methiant

Gweithredu Pellach

Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg(Cymru) 2011

Safonau 52 a 56

Rhaid i Weinidogion Cymru baratoi cynllun gweithredu at y diben o sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion safonau 52 a 56. Rhaid i'r cynllun gweithredu drafft gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Y camau y byddant yn ei gymryd wrth ddisodli'r wefan <https://www.journeycheck.com/tfwrail/> a chynnig y gwasanaeth yma gan gynnwys hysbysiadau taith mewn modd sy'n cydymffurfio gyda safonau 52 a 56.
- Y camau y byddant yn ei gymryd wrth ymgorffori gwefannau eraill sy'n berthnasol i weithrediad safonau'r Gymraeg o fewn y rhaglen ddigidol arfaethedig.
- Pwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol am gymryd pob un o'r camau (gan gynnwys unrhyw gerrig milltir)

		• Yr adnoddau (eg cyllid / staff) sydd eu hangen i gyflawni pob un o'r camau. • Yr amserlen ar gyfer cyflawni'r camau uchod. Rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio yn llawn gyda gofynion safonau 52 a 56 mewn perthynas â'r gwasanaeth sydd ar hyn o bryd yn cael ei ddarparu gan wefan JourneyCheck erbyn mis Rhagfyr 2025. Disgwylir i unrhyw gynllun gweithredu gael ei baratoi a'i gwblhau yn unol â'r canllawiau sydd wedi eu gosod allan yn yr adroddiad yma, ac yn unol â'r canllawiau cyffredinol sydd yn y Ddogfen Gyngor atodol hefyd. Amserlen: Rhaid i Weinidogion Cymru lunio drafft cyntaf o'r cynllun gweithredu a rhoi'r drafft hwnnw i'r Comisiynydd o fewn mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.
<u>Gweinidogion Cymru</u>	CS1207 Derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd ynghylch digwyddiad addysgol a drefnwyd gan Academi Seren ar gyfer disgyblion ysgol. (Mae Academi Seren yn gweithredu safonau Gweinidogion Cymru.) Cynhaliwyd y digwyddiad addysgol yn Saesneg yn unig, ac yr oedd yr holl adnoddau ar gyfer y sesiwn yn Saesneg yn unig hefyd. Ni chafodd y cwrs ei gynnig yn Gymraeg cyn ei gynnal yn Saesneg.	05/08/2024 Canfyddiadau'r Comisiynydd Mae Safon 85 yn ei gwneud hi'n ofynnol ar Weinidogion Cymru sicrhau, pan fyddont yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd ac wedi ei anelu'n benodol at bersonau sy'n 18 oed neu'n iau, y caiff y cwrs ei gynnig yn Gymraeg. Yn yr achos hwn, ni chynhaliwyd y cwrs addysg yn Gymraeg, na'i gynnig yn Gymraeg cyn ei ddarparu yn Saesneg. Dyfernir felly i Weinidogion Cymru fethu â chydymffurfio â Safon 85. Safon 85 – Methiant. Gweithredu Pellach

			1. Rhaid i Weinidogion Cymru greu cynllun gweithredu a fydd yn dangos y camau y bwriedir eu cymryd i adfer cydymffurfiaeth lawn ac i fynd i'r afael â'r materion canlynol: • Sut y mae Academi Seren yn bwriadu mynd ati i gynnig y cyrsiau i ddisgyblion yn y dyfodol; • Adolygu trefniadau ar gyfer comisiynu sesiynau addysgol er mwyn sicrhau bod modd cynnal y sesiynau yn unol â gofyn y safon; • Adolygu'r arweiniad a roddir i staff rhanbarthol er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o ofynion y safonau a'r disgwyliadau o ran cynnig cyrsiau yn Gymraeg; • Amlygu pa gamau y gellir eu cymryd i wella darpariaeth Gymraeg ar draws y rhaglen weithgareddau. 2. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau y cam gorfodi o fewn 2 fis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.
<u>Cyngor Dinas</u> <u>Casnewydd</u>	CS1199 Derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn a methiant honedig y Cyngor i ddarparu gwybodaeth am benderfyniadau Cabinet a'r Cyngor ar wefan Gymraeg y Cyngor.	02/08/2024	Canfyddiadau'r Comisiynydd Bu methiant gan y Cyngor i ddarparu gwybodaeth am agendau a chofnodion y Cyngor ar wefan Gymraeg y Cyngor yn groes i ofynion safon 41. Yn groes i ofynion safon 52, nid oedd pob tudalen Gymraeg a wiriwyd yn gweithredu'n llawn. Hefyd, gwelwyd sawl achos o'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y gwefannau hyn. Ymhellach, nid oedd pob tudalen Saesneg a wiriwyd yn cynnwys dolen uniongyrchol oedd yn arwain at y dudalen Gymraeg gyfatebol. Roedd hyn yn enghraifft o fethiant

gan yr Cyngor i gydymffurfio gyda gofynion safon 55.

Ar ochr Gymraeg y wefan, nid oedd y rhyngwyneb a dewislenni ar gael (yn Gymraeg) ar rai tudalennau a wiriwyd. O ganlyniad, fe fethodd yr Cyngor yn ogystal i gydymffurfio â safon 56.

Safon 41 – Methiant

Safon 52 – Methiant

Safon 55 – Methiant

Safon 56 – Methiant

Gweithredu Pellach

Safonau 41, 52, 55 a 56: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor sicrhau fod cofnodion (gan gynnwys y Gofrestr Penderfyniadau) sy'n ymwneud â chyfarfodydd y Cabinet a'r Cyngor llawn yn cael ei llunio ac ar gael ar wefan y Cyngor yn Gymraeg.
2. Rhaid i'r Cyngor gynnal archwiliadau rheolaidd o'i wefan gwasanaethau democrataidd, gan gynnwys gwefan cyfarfodydd y Cyngor a'r cabinet er mwyn adnabod a chywiro unrhyw wallau ac anghysondebau rhwng y wefan Gymraeg a'r wefan Saesneg.
3. Rhaid i'r Cyngor adolygu ei brosesau rheoli cynnwys er mwyn sicrhau nad oes modd cyhoeddi neu ddiweddarau tudalen (Saesneg) ar y wefan Saesneg heb hefyd gyhoeddi neu ddiweddarau tudalen gyfatebol (Gymraeg) ar y wefan Gymraeg ar yr un pryd.
4. Rhaid i'r Cyngor ddatblygu (a rhannu gyda'r holl dimau

			perthnasol yn y sefydliad) protocolau a chanllawiau clir ar gyfer creu, cyfieithu a chyhoeddi cynnwys dwyieithog ar ei wefannau yn unol â gofynion y safonau. 5. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 i 4. Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.
<u>Cyngor Sir Ddinbych</u>	CS1197 a CS1206 Derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd oedd yn honni bod tudalen Facebook Canolfan Hamdden Dinbych yn cynnwys hysbysebion/gwybodaeth uniaith Saesneg. Ar wahân i hyn, derbyniais sylwadau gan aelod o'r cyhoedd am wefan Hamdden Sir Ddinbych Cyf (HSDd), oedd yn cynnwys amserlenni nofio uniaith Saesneg. Cysylltais â Chyngor Sir Ddinbych ddwywaith am y mater, ac er fy mod wedi cael cadarnhad gan Swyddog Iaith y Cyngor y byddai gwaith cywiro wedi'i gwblhau, roedd y gwallau yn parhau pan wiriwyd y wefan.	22/07/2024	Canfyddiadau'r Comisiynydd Gan fod y gŵyn a'r sylwadau yn taro ar faterion tebyg, penderfynais gynnal ymchwiliad ar y cyd i'r ddau achos. Y gofynion perthnasol dan sylw'r ymchwiliad yw safonau 58 a 52. Rhestr termau sefydliadau dan sylw: - Cyngor Sir Ddinbych – Perchennog Hamdden Sir Ddinbych Cyf. - Hamdden Sir Ddinbych Cyf (HSDd) – Endid cyfreithiol annibynnol dan eiddo Cyngor Sir Ddinbych, sydd yn darparu gwasanaeth hamdden ar ran y Cyngor. - Hamdden Dinbych – Canolfan Hamdden dan reolaeth HSDd Safon 58 – Methiant Safon 52 – Methiant Gweithredu Pellach <u>Safon 58</u> 1. Rhaid i'r Cyngor greu canllaw neu arweiniad i staff

			sydd yn gyfrifol am ei wefannau cymdeithasol am ofynion safonau'r Gymraeg (gan gynnwys safon 58), a'i ddosbarthu i'r staff perthnasol. 2. Rhaid i'r Cyngor fonitro sampl o 10 hysbysiad ar dudalen Facebook Canolfan Hamdden Dinbych o fewn cyfnod o dri mis, a chysylltu â Hamdden Sir Ddinbych Cyf os ydy'r Cyngor yn canfod unrhyw broblemau o gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. <u>Safon 52</u> 3. Rhaid i'r Cyngor sicrhau fod pob amserlen ar wefan Hamdden Sir Ddinbych Cyf ar gael yn Gymraeg (mae hyn yn cynnwys amserlenni nofio, amserlen aelodaeth iau, ac amserlen dosbarthiadau). 4. Rhaid i'r Cyngor fonitro sampl o 10 amserlen ddiwrnodol ar wefan Hamdden Sir Ddinbych Cyf (gall hyn gynnwys amserlenni nofio, amserlen aelodaeth iau, ac amserlen dosbarthiadau), o fewn cyfnod o drimis. 5. Rhaid i Gyngor Sir Ddinbych ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-4.
<u>Cyngor Bro Morgannwg</u>	CS1234 Derbyniais gwyn gan aelod o'r cyhoedd oedd yn honni nad oedd ymgynghoriad ar gyllideb Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer 2024-25 yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at y Gymraeg, nac yn ceisio barn y cyhoedd am effeithiau posibl y penderfyniadau cyllideb dan ystyriaeth ar y Gymraeg.	11/07/2024	Canfyddiadau'r Comisiynydd Y gofynion perthnasol dan sylw'r ymchwiliad yw safonau 91, 92 a 93. Fe ddangosodd yr ymchwiliad na fu ystyriaeth i effaith y penderfyniad polisi ar y Gymraeg, ac ni ofynnwyd cwestiynau i geisio barn y cyhoedd am effeithiau posib ar y Gymraeg. Dangosodd hyn fethiant i gydymffurfio gyda safon 91, 92, a 93. Er bod y Cyngor wedi bwriadu cynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer yr ymgynghoriad,

			a fyddai wedi cynnwys ystyriaeth o'r Gymraeg, nid oedd hyn yn dangos cydymffurfiaeth gyda gofynion y safonau. Safon 91, 92 a 93- Methiant Gweithredu Pellach 1. Rhaid i'r Cyngor lunio canllaw (neu ychwanegu at ganllaw sydd eisoes yn bodoli) sydd yn egluro bod rhaid ystyried a cheisio barn y cyhoedd ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o fewn dogfennau ymgynghori. Mae'n rhaid i'r canllaw nodi holl ofynion safonau 91, 92 a 93. 2. Rhaid i'r Cyngor gynnal hyfforddiant ar gyfer staff sydd yn gyfrifol am lunio dogfennau ymgynghori polisi cyllidebol. Mae'n rhaid i'r hyfforddiant godi ymwybyddiaeth y staff o holl ofynion safonau 91, 92, a 93. 3. Mae'n rhaid codi ymwybyddiaeth pob aelod o staff sydd yn gyfrifol am lunio dogfennau ymgynghori o holl ofynion safonau 91, 92 a 93. 4. Rhaid i Gyngor Bro Morgannwg ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-3. Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.
<u>Gweinidogion Cymru</u>	CS1211 Derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd ynghylch derbyn llythyr yn Saesneg yn unig gan Transport Investigations, cwmni sydd dan gontract i Drafnidiaeth Cymru. (Mae	09/07/2024	Canfyddiadau'r Comisiynydd Mae Safon 5 yn ei gwneud hi'n ofynnol ar Weinidogion Cymru sicrhau bod fersiwn Gymraeg o ohebiaeth yn cael ei ddarparu pan anfonir gohebiaeth i berson ar eu rhan, a phan na wyddant a yw'r person yn dymuno cael gohebiaeth

Trafnidiaeth Cymru yn gweithredu safonau Gweinidogion Cymru.) Roedd y llythyr ynghylch digwyddiad ar daith rheilffordd a gymerodd yr achwynydd ym Mai 2023. Roedd y llythyr yn rhoi cyfle i'r achwynydd ddarparu manylion pellach ynghylch y digwyddiad, ac yn ei chyfeirio at wefan Transport Investigations am ragor o wybodaeth. Mae gwefan Transport Investigations ar gael yn Saesneg yn unig, ac nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn Gymraeg yn unman arall.

yn Gymraeg ai peidio. Gan na ddarparwyd fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth yn yr achos hwn, dyfernir i Weinidogion Cymru fethu â chydymffurfio â Safon 5.

Mae Safon 52 yn ei gwneud hi'n ofynnol ar Weinidogion Cymru sicrhau fod testun pob tudalen ar eu gwefan ar gael yn Gymraeg. Gan fod gwybodaeth sy'n berthnasol i gwsmeriaid Trafnidiaeth Cymru ar gael ar wefan Transport Investigations yn Saesneg yn unig, ac nad yw'r wybodaeth ar gael yn unman arall yn Gymraeg, dyfernir i Weinidogion Cymru fethu â chydymffurfio â Safon 52.

Safon 5 - Methiant

Safon 52 – Methiant

Gweithredu Pellach

Rhaid i Weinidogion Cymru baratoi cynllun gweithredu at y diben o sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion Safon 5 a Safon 52. Rhaid i'r cynllun gweithredu fanylu ar y trafodaethau rhwng Trafnidiaeth Cymru a Transport Investigations a:

- disgrifio'r camau y byddant yn eu cymryd er mwyn cydymffurfio gyda gofynion Safon 5, a sicrhau bod unrhyw ohebiaeth sy'n cael ei hanfon ar eu rhan gan Transport Investigations yn cael ei hanfon yn Gymraeg;
- disgrifio'r camau y byddant yn eu cymryd er mwyn cydymffurfio gyda Safon 52, a sicrhau bod gwybodaeth sy'n berthnasol i gwsmeriaid Trafnidiaeth Cymru ar wefan Transport Investigations, ar gael yn Gymraeg, a bod y wybodaeth yr un mor rhwydd ei ganfod yn Gymraeg ag yn Saesneg;
- cynnwys amserlen ar gyfer cyflawni'r camau uchod.

		Amserlen: Rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno drafft cyntaf o'r cynllun gweithredu i'r Comisiynydd o fewn 2 fis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.
<u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent</u>	04/06/2024	CS1170 Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd am ddiffyg defnydd Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin (yr Ymddiriedolaeth) o'r Gymraeg: - ar ei wefannau - ar ei gyfryngau cymdeithasol - ar rai arwyddion mewn lleoliadau y mae'n eu rheoli. Mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu gwasanaethau sy'n cael eu hyrwyddo gan y gwefannau a'r cyfryngau cymdeithasol hyn ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (y Cyngor). Maent hefyd yn rheoli'r safle ble gosodwyd yr arwyddion ar ran y Cyngor. Mae dyletswydd ar y Cyngor felly i sicrhau fod y ddarpariaeth yma'n cydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Canfyddiadau'r Comisiynydd Yn yr achos yma, nid oedd tudalennau Cymraeg ar y gwefannau canlynol, yn groes i ofynion safon 52: - gwefan gorfforaethol yr Ymddiriedolaeth (www.aneurinleisure.org.uk) - gwefan canolfannau a gwasanaethau hamdden BG Life (www.bqlife.co.uk) - gwefan Parc Bryn Bach (www.parcbrynbach.co.uk) - gwefan Tŷ a Pharc Bedwellty (www.bedwelltyhouseandpark.com) Roedd cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yr Ymddiriedolaeth yn cyhoeddi gwybodaeth a negeseuon yn Saesneg yn unig. Roedd hynny'n groes i ofynion safon 58. Gosodwyd rhai arwyddion uniaith Saesneg ym Mharc Bryn Bach. Roedd hynny'n groes i ofynion safon 61. Wrth i'r ymchwiliad fynd rhagddo, cyhoeddodd yr Ymddiriedolaeth fersiwn Gymraeg o wefan gorfforaethol yr Ymddiriedolaeth (www.aneurinleisure.org.uk) a gwefan BG Life (www.bqlife.co.uk). Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth hefyd godi arwyddion dwyieithog i gymryd lle yr arwyddion uniaith Saesneg, a chywiro'r testun Cymraeg gwallus ar yr arwyddion eraill.

Gosodwyd camau gorfodi er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn mynd i'r afael â'r methiannau eraill i gydymffurfio, ble nad oedd y Cyngor wedi gwneud hynny o'u gwirfodd.

Safon 52, 58 a 61 – Methiant

Safon 55 – Dim methiant

Gweithredu Pellach

Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor gynnal adolygiad er mwyn sefydlu pa rai o'r canlynol mae Ymddiriedolaeth Aneurin yn darparu ar ei ran:

- Tudalennau a gwybodaeth a gyhoeddir ar ei wefannau
- Cyhoeddiadau ar ei gyfrifon cymdeithasol
- Arwyddion a arddangosir

Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

2. Rhaid i'r Cyngor, ar sail canfyddiadau'r adolygiad, baratoi cynllun gweithredu at y diben o sicrhau cydymffurfiaeth â safonau 52, 58 a 61.

3. Rhaid i'r cynllun gweithredu gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Disgrifiad o'r camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd i gydymffurfio â'r safonau
- Amserlen ar gyfer cyflawni'r camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd i gydymffurfio â'r safonau. Ni ddylai'r amserlen fod yn fwy na 6 mis o ddyddiad cymeradwyo'r cynllun.
- Eglurhad o bwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol am gymryd pob un o'r camau yn y cynllun.

			- Sicrhau bod gan aelodau o'r Uwch Dim Rheoli rôl wrth graffu ar gynnydd. Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.
<u>Cyngor Caerdydd</u>	CS1213 Cwyn am ddiffyg gwasanaeth Cymraeg ar fwy nag un achlysur yn nerbynfa Llyfrgell Ganolog Caerdydd.	04/06/2024	Canfyddiadau'r Comisiynydd Y gofyniad perthnasol i'r ymchwiliad yw safon 64. Mae'r Cyngor yn cadarnhau nad oes siaradwr Cymraeg yn gweithio ar dderbynfa'r llyfrgell bob amser, ac felly nid oes modd darparu gwasanaeth derbynfa yn Gymraeg bob amser. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 64. Mae'r Cyngor eisoes wedi rhoi camau ar waith i annog staff i ddysgu Cymraeg, ac mae cynllun recriwtio wedi ei baratoi ar gyfer y misoedd nesaf. O ganlyniad, nid wyf am gymryd camau pellach mewn perthynas â'r methiant. Safon 64 – Methiant Gweithredu Pellach <u>Safon 64</u> Dim gweithredu pellach o ganlyniad i gamau sydd eisoes ar waith gan y Cyngor i gywiro'r methiant.
<u>Cyngor Dinas a Sir Abertawe</u>	CS1209 Derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd oedd yn honni ei bod wedi derbyn e-bost gan Theatr y Grand, Abertawe yn cynnwys dolen i arolwg yn y Gymraeg, oedd yn arwain at dudalen we Saesneg. Wedi hyn, cafodd yr arolwg ei dynnu o'r wefan, a gosodwyd	13/05/2024	Canfyddiadau'r Comisiynydd Y gofyniad perthnasol dan sylw'r ymchwiliad yw safon 50. Gan fod y Cyngor wedi cyflwyno tystiolaeth oedd yn cadarnhau bod fersiwn Gymraeg o'r arolwg wedi bod ar gael, ni fu methiant i gydymffurfio gyda safon 50. Er hyn, rwy'n annog y Cyngor i sicrhau ei fod yn datgan yn glir ar fersiwn Saesneg ffurflenni sydd at ddefnydd y cyhoedd, bod fersiwn Gymraeg hefyd ar gael.

	neges uniaith Saesneg ar y dudalen yn rhoi gwybod fod y cyfnod ar gyfer ymateb i'r arolwg wedi dod i ben.		Safon 50 – Dim methiant
<u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam</u>	CS1195 Derbyniwyd cwyn gan yr achwynydd am y broses o gofrestru lle i blentyn mewn ysgol yn nalgylch y Cyngor oedd yn cynnwys nifer o wallau wrth gyflwyno'r cais ar wefan a ffurflen gofrestru electroneg Cymraeg y Cyngor. Yn benodol, roedd yr achwynydd yn nodi: • Nad oedd gwefan y Cyngor a'r broses ymgeisio ar gyfer cofrestru plentyn mewn ysgol ar gael yn gwbl Gymraeg, er bod dewis ysgolion Cymraeg yn opsiwn; • Derbyniodd gadarnhad o gofrestriad ei phlentyn mewn ysgol cyfrwng Cymraeg yn Saesneg yn unig; • Roedd cyfeiriad cartref yr achwynydd yn ymddangos ar gwmp lenni uniaith Saesneg, heb opsiwn Cymraeg; a • Bod y Cyngor ond wedi cyflwyno gohebiaeth safonol yn Saesneg yn unig heb unrhyw ohebiaeth	10/05/2024	Canfyddiadau'r Comisiynydd Yn yr achos yma, mae'r wefan, y dewislenni a'r cwmp lenni ar ffurflen gais am le mewn ysgol ar wefan y Cyngor yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol ac yn groes i ofynion safon 52. Mae'r wefan a'r broses ymgeisio am le mewn ysgol o fewn dalgylch y Cyngor yn groes i ofynion safon 56. Yn ogystal, mae'r gohebiaeth dderbyniodd yr achwynydd yn cadarnhau lle i'w phlentyn, er cwblhau'r ffurflen yn Gymraeg, yn uniaith Saesneg ac yn groes i ofynion safon 4. Safon 4- Methiant Safon 50 a 50B- Methiant Safon 52 a 56- Methiant Gweithredu Pellach <u>Safon 4</u> 1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam godi ymwybyddiaeth staff o'r angen i anfon gohebiaeth at fwy nag un person yn ddwyieithog ar bob achlysur. <u>Safon 50 a 50B</u> 2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam wirio ei holl e-ffurflenni i sicrhau bod pob ffurflen ar gael yn Gymraeg ac nad yw'r ffurflenni'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

	Cymraeg, er i'r achwynydd gyflwyno'r cais yn Gymraeg ar wefan y Cyngor.		<u>Safon 52 a 56</u> 3. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam gymryd camau i sicrhau bod gwasanaethau ar-lein y Cyngor yn cael ei gyhoeddi ar ei wefan yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan gynnwys cwmp lenni a phenawdau ar adrannau o wefan y Cyngor ac unrhyw ffurflenni ar-lein defnyddir gan y Cyngor. <u>Holl Safonau</u> Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam gynnal adolygiad o'i drefniadau a'i gweithdrefnau a'r modd y mae yn gwirio a phrawf ddarllen gwefannau, ffurflenni ar-lein ac unrhyw broses gofrestru gan sicrhau cywirdeb a chysondeb yn y fersiwn Gymraeg a'r Fersiwn Saesneg o'r un ddogfen. Yn dilyn cynnal yr adolygiad, rwy'n ei gwneud yn ofynnol ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam baratoi papur canfyddiadau a chynnwys adran am y gwersi a ddysgwyd wrth gynnal yr adolygiad a pha newidiadau sydd angen i'w cyflwyno i weithdrefnau'r Cyngor wrth baratoi a gwirio cyhoeddiadau a chwmp lenni ar wefan y Cyngor. Rhaid hefyd cynhyrchu cyngor ymarferol yn egluro wrth staff sut i gynllunio a gweithredu'n Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau o'r fath i'r cyhoedd
<u>Cyngor Sir Gâr</u>	CS1172 Derbyniais gŵyn yn honni bod marciau ffordd newydd yn y Sir yn cynnwys testun Saesneg yn unig. Y testun dan sylw oedd 'Town Centre', 'East' a 'West'.	19/04/2024	Canfyddiadau'r Comisiynydd Roedd hyn yn creu amheuaeth o fethiant i gydymffurfio gyda safon 61. Mae cyfieithiad safonol i 'Town Centre' wedi ei bennu yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru. Drwy beidio defnyddio'r cyfieithiad hwnnw, mae'r Cyngor wedi methu cydymffurfio gyda safon 61. Nid oes fersiwn Gymraeg o 'East' a 'West' yn y canllawiau, ac felly nid oes

		gan y Cyngor hawl i ddefnyddio ‘Gorllewin’ a ‘Dwyrain’. Mae hyn oherwydd byddai hynny yn groes i’r Ddeddfwriaeth berthnasol, ac felly mae’r Cyngor wedi ei eithrio o ofynion y safon yn unol â pharagraff 25 o Ran 3 Atodlen 1 o Reoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Safon 61 – Methiant (Dim gweithredu pellach).
<u>Cyngor Sir Gâr</u>	12/04/2024	CS1201 Mae’r achwynydd yn honni bod hysbysiad cofrestru etholiadol Cymraeg anfonwyd gan Gyngor Sir Gaerfyrddin yn cynnwys cyfeiriad Saesneg i’w gartref. Darparwyd sgrin-lun o’r hysbysiad dan sylw oedd yn cadarnhau hyn. Canfyddiadau’r Comisiynydd Y gofynion perthnasol dan sylw’r ymchwiliad yw safonau 4 a 6. Yn dilyn derbyn tystiolaeth gan y Cyngor, mae’r ohebiaeth dan sylw yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol am nad yw cyfeiriad yr achwynydd wedi ei nodi yn Gymraeg, a hynny er gwaetha’r ffaith bod stryd cartref yr achwynydd wedi ei gofrestru yn Gymraeg gan y Cyngor. Mae hyn yn groes i ofynion safon 6. Gan ystyried tystiolaeth y Cyngor, ymddengys mai problem gyda’r cyfeiriadau post a ddefnyddir gan ddarparwyr meddalwedd y Cyngor sydd wrth wraidd yr hyn o fewn cwyn yr achwynydd. Mae hyn tu hwnt i reolaeth y Cyngor. O ganlyniad, er canfod methiant, ni byddaf yn gweithredu ymhellach nac yn gosod camau gorfodi ar y Cyngor. Byddaf yn gofyn i fy swyddogion gysylltu gyda chwmni meddalwedd IDOX a’r Post Brenhinol am eu hymateb i’r canfyddiadau yma ac i ystyried datrysiad i’r sefyllfa fydd yn sicrhau cydymffurfiaeth y Cyngor â Safonau’r Gymraeg. Rwyf hefyd yn argymhell bod fy swyddogion yn cynnal ymarferiad i gasglu gwybodaeth gan holl awdurdodau lleol Cymru am eu trefniadau cyfredol wrth baratoi gohebiaeth cofrestru etholiadol er mwyn deall sut mae’r awdurdodau

			Ileol yn creu gohebiaeth cofrestru etholiadol yn unol â Safonau'r Gymraeg. Safon 4 – Methiant Safon 6 – Dim methiant
<u>Cyngor Sir y Fflint</u>	CS1202 Derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd oedd yn honni fod enwau Cymraeg wardiau etholiadol wedi eu camsillafu ar wefan y Cyngor, a thestun uniaith Saesneg yn ymddangos ar dudalennau oedd yn rhoi gwybodaeth am gynghorwyr y Cyngor. Dyma'r ail dro i'r achwynydd gyflwyno cwyn am y mater yma. Penderfynwyd peidio ymchwilio i'r gŵyn gyntaf yn dilyn ymrwymadau gan y Cyngor i fynd i'r afael â'r mater.	11/04/2024	Canfyddiadau'r Comisiynydd Y gofyniad perthnasol dan sylw'r ymchwiliad yw safon 52. Yn yr achos hwn, mae'r dudalen dan sylw ar wefan y Cyngor wedi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg am y rhesymau nododd yr achwynydd yn y gŵyn, a hynny'n groes i ofynion safon 52. Safon 52 – Methiant Gweithredu Pellach 1. Rhaid i Gyngor Sir y Fflint wirio cywirdeb sillafiad enw pob ward etholiadol y Sir ar ei wefan. 2. Rhaid i'r Cyngor ddosbarthu ei becyn cymorth ar gyfer datblygwyr meddalwedd dwyieithog i bob aelod o staff perthnasol unwaith eto, gan dynnu sylw penodol staff at y gofyniad i sicrhau dylai "ansawdd ieithyddol fod ar yr un lefel ar gyfer y ddwy iaith" (cymal 1.3 y pecyn). 3. Rhaid i'r Cyngor fonitro sampl o 10 dudalen ar ei wefan o fewn blwyddyn, i wirio bod y cynnwys Cymraeg yn gywir yn unol â gofynion safon 52. 4. Rhaid i Gyngor Sir y Fflint ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-3.
<u>Cyngor Sir Powys</u>	CS1171 Mae dwy elfen i'r gŵyn hon. Yn gyntaf, honnai'r achwynydd	10/04/2024	Canfyddiadau'r Comisiynydd

bod cyhoeddiadau uniaith Saesneg ar system annerch gyhoeddus bws Traws Cymru o'r Drenwydd i Gaerdydd ar 05/07/2023, yn ogystal â cyhoeddiadau ble roedd y Gymraeg yn dilyn y Saesneg ar y system annerch gyhoeddus. Yn ail, honnai'r achwynydd bod y Gymraeg yn dilyn y Saesneg ar sgrin ddigidol y gwasanaeth bws o'r Drenwydd i Gaerdydd.

Y gofynion perthnasol dan sylw'r ymchwiliad yw Safonau 87, 61 a 62. Yn yr achos hon, mae'r Gymraeg wedi cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng nghyhoeddiadau system annerch gyhoeddus y gwasanaeth bws rhwng y Drenwydd a Chaerdydd, a hynny'n groes i ofynion safon 87. Hefyd, fe driniwyd y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o achos Cymraeg gwallus ar sgriniau ddigidol y gwasanaeth bws, yn groes i ofynion safon 61. Nid oedd methiant fodd bynnag i gydymffurfio â safon 62 gan fod y testun sy'n cael ei arddangos yn ymddangos yn gylchol.

Safon 87 – Methiant

Safon 61 – Methiant

Safon 62 – Dim methiant

Gweithredu Pellach

Safon 87

1. Rhaid i Gyngor Sir Powys greu canllaw neu arweiniad i'w staff a chontractwyr gwasanaeth bws sydd yn egluro gofynion safonau 87 mewn perthynas â chyhoeddiadau system annerch gyhoeddus, a thynnu sylw y staff a contractwyr perthnasol at y ddogfen honno
2. Rhaid i'r Cyngor greu gweithdrefn wirio ar gyfer arsylwi cydymffurfiaeth y gwasanaeth bws gyda gofynion safonau'r Gymraeg, gan gynnwys safonau 87 a 61.
3. Rhaid i'r Cyngor wirio cywirdeb enwau sampl o bymtheg aros-fan sydd yn cael eu dangos ar sgriniau ddigidol y gwasanaeth bws T4, o fewn cyfnod o 3 mis. Mae hyn yn berthnasol i aros-fannau ar y gwasanaeth T4 sydd yn disgyn dan gyfrifoldeb y Cyngor yn unig.

Safon 61

4. Rhaid i'r Cyngor wirio cywirdeb enwau Cymraeg pob aros-fan bws ar wasanaeth bws T4 o fewn cyfnod o dair mis, a chywiro unrhyw enwau anghywir sydd yn cael eu canfod. Mae hyn yn berthnasol i aros-fannau ar y gwasanaeth T4 sydd yn disgyn dan gyfrifoldeb y Cyngor yn unig.